# Ymweliad James Evans AS â Seland Newydd 2023



## Diben yr ymweliad

Roedd hwn yn gyfle i ymgymryd â busnes swyddogol y Senedd tra oeddwn yn Seland Newydd ar daith roeddwn wedi'i threfnu ymlaen llaw ac wedi talu amdani'n bersonol.  Fy nod oedd dysgu mwy am system wleidyddol Seland Newydd, eu polisïau a'u harferion, er mwyn gwella fy rôl fel Aelod o'r Senedd dros Frycheiniog a Sir Faesyfed.  Byddai'r ymweliad yn meithrin perthynas agosach rhwng y ddwy Senedd.  Roeddwn am ganolbwyntio ar iechyd meddwl, o gofio fy rôl fel Gweinidog yr Wrthblaid dros Iechyd Meddwl, ac ar bolisïau ac arferion amaethyddol, systemau ffermio, arferion amgylcheddol ac arallgyfeirio.  Roedd yn gyfle i weld pa arferion da /gwersi y gallwn ni eu dysgu yma yng Nghymru ac yn fy etholaeth i ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed.



Cefais gyfle i gwrdd â chynrychiolwyr Senedd Seland Newydd i feithrin a datblygu cysylltiadau rhwng y ddwy wlad. Fe gwrddais ag Aelodau o'r Senedd a Chadeirydd Pwyllgor i drafod iechyd meddwl, addysg, masnach ac amaethyddiaeth i gael dealltwriaeth well  o bolisi'r llywodraeth a gweld beth y gallwn ei ddysgu a fyddai'n fuddiol i'm gwaith fel Aelod o'r Senedd dros Frycheiniog a Sir Faesyfed ac a fyddai'n fuddiol i Gymru gyfan. Fe gwrddais â Dirprwy Uchel Gomisiynydd Seland Newydd i drafod y polisi masnach gyda Llywodraeth y DU a gweld sut y bydd cytundebau masnach yn fuddiol / niweidiol i fy etholwyr gwledig ac i gael dealltwriaeth ehangach o waith yr Uchel Gomisiwn.

## Diwrnod 1

Pan oeddwn yn Seland Newydd, cefais gyfle i ymweld â ffatri cynhyrchu cig ANZCO yn Ashburton lle cefais fy nghyflwyno i Steve Dickie, Pennaeth Gwasanaethau Bwyd a Tim Raines, Pennaeth Gwerthu - Rhyngwladol yn Ynys y De. Mae ANZCO yn gwmni rhyngwladol ac yn un o allforwyr mwyaf Seland Newydd. Maent yn gwerthu gwerth $1.9 biliwn y flwyddyn ac mae ganddynt gwsmeriaid mewn mwy nag 80 o wledydd. Rhaid i'r holl gig eidion a'r cig oen sy'n mynd drwy'r ffatri fodloni safonau cenedlaethol llym. Maent yn gweithio'n agos iawn gyda'r diwydiant i annog ffermwyr i fodloni meini prawf Rhaglen Gwarant Fferm Seland Newydd. Mae Rhaglen Gwarant Fferm Seland Newydd yn canolbwyntio ar uniondeb, y gallu i olrhain, bioddiogelwch, cynaliadwyedd a lles anifeiliaid.




Yn dilyn fy ymweliad â ffatri ANZO, teithiais i Mt Somers Station i gwrdd â Kate Acland, Cyfarwyddwr Ffermwyr Cig Eidion a Chig Oen Seland Newydd ar gyfer Gogledd Ynys y De. Mae Mt Somers Station yn eiddo i deulu David a Kate Acland, sy'n rhedeg y fferm 3800ha gyda'i gilydd. Mae'r eiddo yn rhedeg o Afon Ashburton ar uchder o 400m at ffin y parc cadwraeth ar waelod y Mynydd, sy'n 700m o uchder. Mae Mt Somers Station yn cadw dros 13,000 o ddefaid magu, 1300 o wartheg godro a 200 o wartheg eidion. Mae'r eiddo hefyd yn cynnwys 500ha o lystyfiant brodorol a choedwig ffawydd nad yw'n cael ei bori mwyach. Mae'r llystyfiant hwn yn darparu digon o fwyd i'r 400 o gychod gwenyn sydd ar yr eiddo ac sy'n cynhyrchu mêl Manuka a Honeydew yn ogystal â'r mêl meillion a gynhyrchir ar y terasau is. Mae 12 o staff amser llawn yn gweithio ar y fferm, a'r rhan fwyaf ohonynt yn byw ar yr eiddo.



## Diwrnod 2 a 3

Tra oeddwn ar Ynys y Gogledd, roeddwn yn ffodus iawn i gwrdd â Dirprwy Uchel Gomisiynydd Seland Newydd yn Wellington, sef Sam Pass. Yn ystod y cyfarfod, rhoddodd y Dirprwy Gomisiynydd fraslun o'r gwaith roedd y Comisiwn wedi bod yn ei wneud yn Seland Newydd i baratoi ar gyfer y cytundeb masnach a lofnodwyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Seland Newydd. Buom yn trafod yn fanwl y cyfleoedd a fyddai ar gael i bobl ifanc weithio yn y ddwy wlad drwy ymestyn y fisa gwyliau gweithio newydd. Buom yn sôn hefyd am y cyfleoedd i fusnesau yn y sector gweithgynhyrchu ac adnewyddadwy yng Nghymru weithio yn Seland Newydd. Treuliwyd cyfran helaeth o'r cyfarfod yn



trafod Partneriaeth y Môr Tawel y mae'r DU wedi ymuno â hi a'r cyfleoedd gwych y mae'n ei gynnig i fusnesau Cymru allforio'u nwyddau i un o farchnadoedd mwyaf y byd.

Cefais gyfle i gwrdd â nifer o Aelodau o'r Senedd o bob plaid i drafod nifer o faterion sy'n berthnasol i Gymru a Seland Newydd. Yn gyntaf, cwrddais â Paul Eagle AS, sy'n aelod o'r Blaid Lafur a hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Trafnidiaeth a Seilwaith. Buom yn trafod yr angen i ddatblygu'r seilwaith ymhellach yng Nghymru ac yn Seland Newydd a'r heriau sy'n ein hwynebu oherwydd y newid yn yr hinsawdd a'r angen i leihau allyriadau carbon. Rhoddais fraslun o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud yn y maes hwn ac roedd Paul yn awyddus i ddysgu mwy am y strategaethau sydd gennym yng Nghymru i ddatgarboneiddio ein seilwaith a'n trafnidiaeth.





Yn dilyn y cyfarfod â Paul cefais daith o amgylch Senedd Seland Newydd a chefais fy nghyflwyno i Senedd Seland Newydd gan y Llefarydd yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, ac roedd hynny'n anrhydedd ac yn fraint.

Un o'r sgyrsiau mwyaf diddorol a gefais oedd honno gyda Matt Doocey AS, sef llefarydd y Blaid Genedlaethol ar iechyd meddwl, atal hunanladdiad a ieuenctid. Yn ystod y cyfarfod â Matt, buom yn trafod problemau iechyd meddwl pobl ifanc yn dilyn y pandemig a'r problemau cysylltiedig â gorddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Soniais am wasanaeth '111 pwyso 2' y GIG yng Nghymru a'r strategaeth Law y Llaw at Iechyd Meddwl. Eglurodd rywfaint o'r gwaith roedd Llywodraeth Seland Newydd wedi bod yn ei wneud yn y maes hwn ond roedd yn awyddus i weld sut y gallai Seland Newydd efelychu'r mentrau sydd ar waith yng Nghymru.



Cefais sgyrsiau anffurfiol ag Aelodau eraill o'r Seneddd, sef Rachel Brooking AS, Naisi Chen AS, yr Anrh Paul Goldsmith AS, Melissa Lee AS, yr Anrh Todd McClay AS, Greg O'Connor AS, Tim van de Molen AS a'r Anrh Michael Woodhouse AS.





## Diwrnod 4

Ar y pedwerydd diwrnod olaf o’m busnes Seneddol yn Seland Newydd, ers i Wairere Rams yn Masterton, fferm yn rhanbarth Wairarapa ar Ynys y Gogledd i weld drosof fy hun yr effaith y mae ffermio carbon yn ei chael ar ffermydd mynydd Ynys y Gogledd. Roedd yr effaith y mae amaeth-goedwigaeth wedi'i chael ar ddiwydiant amaethyddol Seland Newydd yn syfrdanol. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae 175,000 hectar wedi’u gwerthu ar gyfer coedwigaeth garbon. Mae hyn yn golygu bod Seland Newydd wedi colli dros 1 miliwn o unedau stoc o'r tir ac, o ganlyniad, mae 1600 o swyddi gwledig wedi’u colli. Mae'r refeniw allforio a gollwyd i'r wlad yn cyfateb i $245 miliwn o ddoleri ac mae'r golled flynyddol yn cyfateb i $170 miliwn wrth gât y fferm, yn ôl prisiau 2021-22 yn Seland Newydd. Mae hon yn golled gynhyrchu gronnus o $540 miliwn o ddoleri wrth gât y fferm wrth i’r gwaith plannu cynyddol ddisodli da byw rhwng 2017 a 2022. Dyma pam mae’n rhaid bod ofalus, wrth ystyried y cynlluniau hyn yng Nghymru, ein bod yn ymwybodol o sgil-effeithiau plannu coed ar ein heconomi a’n ffordd wledig o fyw.



## Casgliadau

Roedd yn drawiadol pa mor debyg yw Cymru a Seland Newydd o ran y materion a’r heriau y maent yn eu hwynebu a chyfeiriad eu polisi.  Roedd y daith yn addysgiadol ac yn ddiddorol iawn. Llwyddodd yr ymweliad i godi proffil Senedd Cymru a bydd yn esgor ar gysylltiadau agosach rhwng y ddwy Senedd.

Mae Llywodraeth Seland Newydd yn dilyn yr hyn y mae llawer o lywodraethau gorllewinol yn ei argymell, gan wthio am ragor o reoliadau amgylcheddol i leihau nifer y da byw i fynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd.  Roedd yr ffermwyr y cwrddais â nhw hefyd yn pryderu  ynghylch sicrhau’r cydbwysedd cywir rhwng cynhyrchu bwyd a diogelwch bwyd yn y dyfodol a diogelu’r amgylchedd.

Yr hyn a oedd yn amlwg i mi oedd bod ffermwyr a chymunedau gwledig Seland Newydd yn wynebu’r un problemau sy’n ein hwynebu ni yma yng Nghymru, sef effaith costau cynyddol, y cynnydd mewn rheoliadau amgylcheddol a'r rhaniad cynyddol rhwng ardaloedd trefol a gwledig.



Dangosodd yr ymweliad i mi y gallwn, drwy weithio gyda’n gilydd yn hytrach na brwydro yn erbyn ein gilydd, greu llawer o gyfleoedd i bobl ifanc, busnesau a’r economi’n ehangach er budd Cymru a Seland Newydd.

Ar ôl dychwelyd i’r Senedd, rwy’n bwriadu hyrwyddo’r cyfleoedd i bobl Cymru deithio i Seland Newydd.  Bydd yr ymweliad hwn yn dylanwadu ar fy nghyfraniad i ddadleuon yn y Senedd yn

enwedig ynghylch amaethyddiaeth, amaeth-goedwigaeth a sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng amcanion amgylcheddol a diogelwch bwyd.